# Anogwr y Gymraeg

Tystysgrif Addysg i Raddedigion

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Cynnwys


Gwybodaeth am y Rôl 3

Nodweddion allweddol 3

Cyfrifoldebau allweddol 4

# Gwybodaeth am y Rôl

Mae Anogwr y Gymraeg yn cefnogi ac ysbrydoli athro dan hyfforddiant i ddatblygu ei hyder, ei sgiliau a'i defnydd o'r Gymraeg. Bydd Anogwr y Gymraeg yn chwarae rhan allweddol wrth helpu i wireddu amcanion Llywodraeth Cymru drwy hybu defnydd y Gymraeg o ddydd i ddydd. Bydd Anogwr y Gymraeg yn chwarae rhan strategol wrth arwain ar ddatblygiad y Gymraeg o fewn y cyd-destun ysgol, gan osod blaenoriaethau clir ac ymateb i ofynion partneriaethau hyfforddiant athrawon a pholisïau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ynghylch cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector addysg.

Bydd ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'r F**framwaith Cymwyseddau Iaith ar gyfer Ymarferwyr Addysg** yn ffordd o ddangos beth all athrawon a chynorthwywyr dosbarth ei wneud yn Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ar bob lefel o sgiliau iaith.

# Nodweddion allweddol

Mae Anogwr y Gymraeg yn arweinydd cadarnhaol sy'n ysbrydoli defnydd a datblygiad o'r Gymraeg, yn meithrin diwylliant ieithyddol cynhwysol, ac yn cefnogi datblygiad sgiliau iaith ar draws y gymuned ysgol gyfan, gan gynnwys athrawon dan hyfforddiant y Brifysgol Agored. Bydd Anogwr y Gymraeg yn:

- Medru darparu mentora effeithiol yn y maes o ansawdd uchel.
- Meddu ar gymhwyster, profiad perthnasol, sgiliau cyfathrebu cryf neu agwedd gadarnhaol tua'r Gymraeg.

- Meddu ar ddealltwriaeth dda o bolisïau ac amcanion hybu'r Gymraeg; i ymarferwyr ac i ddisgyblion.
- Brofiadol wrth weithio gyda phobl ar wahanol lefelau o hyfedredd iaith.
- Arddangos ymagwedd gefnogol, adeiladol ac ysbrydoledig.
- Gwerthfawrogi'r cyfle i ddatblygu'n broffesiynol ac yn dangos ymrwymiad i ddysgu parhaus.

# Cyfrifoldebau allweddol

Fel rhan o'r rôl, bydd **Anogwr y Gymraeg** yn:

- Darparu mentora un-i-un neu mewn grwpiau i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.
- Cefnogi'r athro dan hyfforddiant i asesu ei sgiliau iaith ac adnabod anghenion hyfforddi.
- Ar y cyd gyda'r athro dan hyfforddiant, datblygu cynllun gweithredu unigol ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg, a fydd yn cynnwys cyflawni'r 35 awr o feithrin sgiliau Cymraeg, a strategaethau addysgu iaith.
- Gosod targedau pwrpasol sy'n ystyried effaith addysgu'r athro dan hyfforddiant ar brofiadau a chynnydd disgyblion yn y Gymraeg.
- Cynnig arweiniad ar adnoddau dysgu a chyfleoedd pellach er enghraifft:
    - Sgwrsio gyda siaradwyr Cymraeg; yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.
    - Annog a chynnal sesiynau ymarfer anffurfiol ('sgwrs dros baned', gweithgareddau cymdeithasol ayyb).

- Cefnogi'r athro dan hyfforddiant i ddatblygu ei ymwybyddiaeth o arferion datblygu'r Gymraeg yn yr ysgol e.e. Siarter Iaith.
    - Trefnu cyfleoedd i'r athro dan hyfforddiant fod yn rhan o weithgarwch hybu'r Gymraeg e.e. Criw Cymraeg, Diwrnod Shwmae, Diwrnod Miwsig Cymru, yr Urdd, gwyliau diwylliannol Cymreig.
    - Meithrin cysylltiad gyda rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn yr ardal e.e. Athrawon Bro, Ymgynghorwyr Iaith, Menter Iaith, yr Urdd.
    - Gwneud defnyddio o dechnoleg i ymarfer neu fel strategaethau addysgu e.e. Apiau fel SaySomethingInWelsh, Duolingo, neu BBC Learn Welsh, BBC Bitesize Cymraeg, Kahoot, Cyw,
    - Trefnu ymweliadau neu gyfleoedd i arsylwi e.e. ar athrawon eraill, ar arfer dda mewn ysgolion eraill neu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Darparu cefnogaeth ar gywirdeb y Gymraeg, yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod yr athro dan hyfforddiant yn defnyddio'r Gymraeg yn gywir ac yn hyderus.
- Rhoi cyngor ar addysgeg caffael neu ddysgu iaith a darparu arweiniad ar strategaethau a dulliau addysgu iaith effeithiol, gan gynnwys dulliau caffael iaith ail a dulliau trochi, er mwyn gwella gallu'r athro dan hyfforddiant i addysgu'r Gymraeg yn effeithiol.
- Monitro ac adolygu cynnydd ar y cynllun gweithredu a chynnal adolygiadau o'r cynllun gweithredu unigol, gan fonitro cynnydd yr athro dan hyfforddiant yn erbyn targedau penodol, a gwneud addasiadau priodol i sicrhau bod y nodau'n cael eu cyflawni.
- Darparu cymorth parhaus i'r athro dan hyfforddiant wrth iddynt gwblhau'r tasgau tystiolaeth sy'n ofynnol gan y Fframwaith Gymraeg i Ymarferwyr,

gan sicrhau bod y portffolio yn gyflawn ac yn adlewyrchu datblygiad a chyflawniadau yn llawn

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru